

Cyngor Iechyd Cymuned De Morgannwg

Cludiant i Wasanaethau Iechyd

Medi 2022



Fformatau Addas

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.

Os hoffech y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni.

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi trwy gysylltu â'n swyddfa.

Cynnwys

Y Cynghorau Iechyd Cymuned	Tud 3
Crynodeb Gweithredol	Tud 4
Cyflwyniad a Chefndir	Tud 8
Beth Rydym wedi'i Gyflawni	Tud 10
Pwy sy'n Cysylltu â Ni	Tud 12
Beth a Glywsom	Tud 13
Dysgu o'r Hyn a Glywsom	Tud 58
Diolchiadau	Tud 63
Adborth	Tud 64
Manylion Cyswllt	Tud 65

Y Cyngorau Iechyd Cymuned (Y CICau)

Y CICau yw corff gwarchod annibynnol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae'r CICau yn annog a chefnogi pobl i gael llais yng nghynllun a darpariaeth gwasanaethau'r GIG.

Mae'r CICau yn cydweithio â'r GIG, cyrff archwilio a rheoleiddio. Maent yn gyswllt pwysig rhwng y rhai sy'n cynllunio a darparu gwasanaethau'r GIG, y rhai sy'n eu harchwilio a'u rheoleiddio a'r rheiny sy'n eu defnyddio.

Mae'r CICau yn clywed oddi wrth y cyhoedd mewn sawl gwahanol ffordd. Cyn pandemig y coronafeirws, roedd y CICau yn ymweld yn rheolaidd â gwasanaethau'r GIG i glywed gan bobl tra roeddent yn derbyn gofal a thriniaeth. Yn ogystal, roedd y CICau yn clywed gan bobl mewn digwyddiadau cymunedol lleol, a thrwy gynrychiolwyr a grwpiau cymunedol.

Ers pandemig y coronafeirws, mae'r CICau wedi canolbwyntio ar ymgysylltu â phobl mewn gwahanol ffyrdd.

Mae hyn yn cynnwys arolygon, apiau, fideo-gynadledda a chyfryngau cymdeithasol er mwyn clywed barn a phrofiadau pobl o wasanaethau'r GIG yn uniongyrchol, yn ogystal â thrwy grwpiau cymunedol.

Mae 7 CIC yng Nghymru a phob un ohonynt yn cynrychioli llais "y claf a'r cyhoedd" mewn gwahanol rannau o Gymru.

Crynodeb Gweithredol

Mae'r CIC yn cydnabod yr anawsterau y mae rhai cleifion yn eu hwynebu o ran cludiant i wasanaethau iechyd.

Cyhoeddodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru arolwg yn 2019 ar y pwnc o gludiant i wasanaethau iechyd. Os hoffech ddarllen adroddiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, gallwch wneud hynny trwy'r ddolen hon:

https://olderpeople.wales/library/Accessing_Health_Services_in_Wales_-_Transport_Issues_and_Barriers.pdf

Trwy garedigrwydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru cafodd y CIC ganiatâd i ailgynhyrchu'r arolwg hwn er mwyn casglu adborth a mewnlwg o bersbectif lleol am wasanaethau iechyd yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, ar eu profiadau gyda chludiant, gan fod hyn yn cael ei godi'n aml fel mater o bryder.

Derbyniodd y CIC nifer o arolygon a oedd yn gofyn i ymatebwyr roi adborth ar gludiant i wasanaethau Sylfaenol a gwasanaethau Eilaidd / Trydyddol. Cawsom nifer o sylwadau hefyd trwy'r cyfryngau cymdeithasol a chyswllt uniongyrchol â'r CIC.

Roedd cwestiynau'r arolwg yn canolbwyntio ar y meysydd hyn:

Iechyd Sylfaenol: Y gwasanaethau iechyd hynny sy'n darparu'r pwynt gofal cyntaf o fewn neu gerllaw eich cymuned gan gynnwys meddygfeydd, fferyllfeydd, deintyddfeydd ac optegwyr.

Iechyd Eilaidd / Trydyddol: Y gwasanaethau iechyd hynny sy'n darparu gofal mewn ysbytai (gan gynnwys ysbytai cymunedol) ac yn trin mathau penodol o salwch megis canser.

Yn gyffredinol, cymysg oedd ymateb y cyhoedd ynghylch cludiant i wasanaethau iechyd, rhai ddim yn cael unrhyw anhawster o gwbl tra bod eraill wedi colli neu wedi bod yn hwyr i apwyntiadau gwasanaeth iechyd oherwydd problemau gyda'u cludiant.

Pan ofynnwyd am gludiant i wasanaethau iechyd, rhoddodd ymatebwyr adborth ar y meysydd canlynol:

Y Mathau o Gludiant a Ddefnyddiwyd

Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr wrthym eu bod yn defnyddio'u car eu hunain neu gar rhywun arall i deithio i wasanaethau iechyd Sylfaenol ac Eilaidd / Trydyddol, fel ei gilydd.

Amllder y Teithio i Wasanaethau Iechyd

Mae mwyafrif yr ymatebwyr yn ymweld â gwasanaethau Sylfaenol bob 2-3 mis ac yn ymweld â gwasanaethau Eilaidd / Trydyddol llai nag unwaith y flwyddyn.

Pa mor Hir y mae'n Cymryd i Deithio i Wasanaethau Iechyd

Mae mwyafrif yr ymatebwyr yn treulio 15 munud neu lai ar gyfartaledd yn teithio i wasanaethau Sylfaenol ac 20 – 30 munud yn teithio i wasanaethau Eilaidd /Trydyddol.

Cymorth wrth Deithio

Nododd mwyafrif yr ymatebwyr nad oedd angen unrhyw help arnynt wrth deithio i wasanaethau iechyd Sylfaenol neu Eilaidd / Trydyddol ond i'r rhai sydd angen cymorth byddai mwyafrif yr ymatebwyr yn derbyn help gan aelod o'u teulu.

Anawsterau o ran Cludiant

Dyweddodd mwyafrif yr ymatebwyr na chawsant unrhyw anawsterau wrth deithio i wasanaethau Sylfaenol, ond i'r rhai sy'n profi anawsterau y prif broblemau a restrwyd ganddynt oedd bod gormod o waith cerdded ac nad oedd ganddynt gar.

Nododd canran uchel o ymatebwyr anawsterau wrth deithio i wasanaethau iechyd Eilaidd / Trydyddol a'r prif reswm a roddwyd am hyn yn dangos ei fod yn rhy bell i gerdded ac nad oes digon o lefydd parcio ar gael yn y lleoliad maen nhw'n mynd iddo.

Effaith Cludiant

Dyweddodd y mwyafrif o'r ymatebwyr mai anaml neu ddim o gwbl y byddai problemau cludiant yn eu hatal rhag cael mynediad at wasanaethau Iechyd Sylfaenol, ac felly nad yw hyn wedi achosi iddynt fod yn hwyr i apwyntiad gwasanaeth Sylfaenol na'i golli.

Dyweddodd ymatebwyr hefyd mai anaml neu ddim o gwbl y byddai problemau cludiant yn eu hatal rhag cael mynediad at wasanaethau iechyd Eilaidd / Trydyddol, er bod canran uchel yn nodi iddynt golli neu iddynt fod yn hwyr i apwyntiad gwasanaeth iechyd Eilaidd / Trydyddol oherwydd problemau cludiant. Nododd tua thraean o ymatebwyr bod problemau o ran cludiant wedi effeithio ar eu gallu i ymweld â rhywun mewn ysbyty.

Gwybodaeth am Gludiant

Rhoddodd mwyafrif yr ymatebwyr wybod i ni y byddent yn cysylltu â'r darparwr cludiant neu'r gwasanaeth iechyd i gael gwybodaeth am gludiant, a'r mwyafrif yn gwneud hynny ar-lein.

Cyflwyniad a Chefndir

Mae Cyngor Iechyd Cymuned De Morgannwg yn gwneud pob ymdrech i glywed gan gleifion a'r cyhoedd ar draws pob demograffeg, cymuned a grŵp o fewn Caerdydd a Bro Morgannwg.

Yn ogystal â gofyn am adborth cyffredinol gan y cyhoedd ar faterion yn ymwneud â'u gofal iechyd, mae'r CIC hefyd yn cynnal ymgyrchoedd penodol wedi'u targedu i gael gwybodaeth ac adborth gan gleifion sydd â chyflyrau iechyd neu anableddau penodol, neu i gael gwybodaeth ar wasanaethau penodol o fewn y GIG, er mwyn sicrhau ein bod yn clywed gan bob grŵp o gymdeithas am eu darpariaeth gofal iechyd.

Mae llawer o bobl ledled Cymru yn wynebu heriau wrth deithio i wasanaethau iechyd megis eu hapwyntiadau Meddyg Teulu neu Ysbyty.




Yn yr achos hwn, roedd y CIC yn awyddus i glywed yn uniongyrchol gan gleifion am eu profiadau o deithio i

wasanaethau iechyd yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, a hynny er mwyn canfod pa fath o gludiant roedd pobl yn ei ddefnyddio, a sut y gellid gwella cludiant i wasanaethau iechyd.

Mae'r CIC yn sylweddoli pwysigrwydd cael gwybodaeth fanylach ar brofiadau cleifion yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg ynghylch teithio i Wasanaethau Iechyd, gyda'r nod o wneud argymhellion i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar sut i wella'r profiad o safbwynt y claf, os yw'n briodol gwneud hynny.

Beth rydym wedi'i Gyflawni

Cyhoeddodd CIC De Morgannwg arolwg er mwyn cael adborth gan gleifion am eu profiadau o deithio i wasanaethau iechyd yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.



Lluniwyd a chyhoeddwyd yr arolwg yn wreiddiol gan Gomisiynydd Pobl Hŷn

Cymru, a hoffai'r CIC ddiolch i'r comisiynydd am y caniatâd i ddefnyddio'r arolwg hwn. Os hoffech ddarllen Adroddiad

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, gallwch wneud hynny trwy fynd i: https://olderpeople.wales/library/Accessing_Health_Services_in_Wales_-_Transport_Issues_and_Barriers.pdf

Rhestrwyd yr arolwg ar ein gwefan a chafodd gyhoeddusrwydd trwy ein sianelau cyfryngau cymdeithasol Facebook a Twitter. Cafodd manylion yr arolwg eu cynnwys hefyd yn ein briffiau rheolaidd i randdeiliaid.

Yn ogystal, dosbarthodd CIC De Morgannwg gopïau papur o'r arolwg yng Ngŵyl Drafnidiaeth Ynys y Barri, 12 Mehefin 2022, yn Ffair Iechyd Cymunedau Ethnig Lleiafrifol yn Neuadd y Ddinas

Caerdydd, 29 Mehefin 2022 a Ffair Bentref Sain Tathan yn Sain Tathan, 2 Gorffennaf 2022.

Roedd yr arolwg ar gael i'w gwblhau yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae'n cyfeirio at y gwahanol fathau o wasanaethau iechyd:

Iechyd Sylfaenol: Y gwasanaethau iechyd hynny sy'n darparu'r pwynt gofal cyntaf o fewn neu gerllaw eich cymuned gan gynnwys meddygfeydd, fferyllfeydd, deintyddfeydd ac optegwyr.

Iechyd Eilaidd / Trydyddol: Y gwasanaethau iechyd hynny sy'n darparu gofal mewn ysbytai (gan gynnwys ysbytai cymunedol) ac sy'n trin mathau penodol o salwch megis canser,

Roedd yr arolwg ar gael i'w gwblhau o 23 Mai 2022 i 15 Awst 2022 a gofynnwyd i ymatebwyr roi gwybodaeth am y canlynol:

- ❖ Sut roedd cleifion yn teithio i wasanaethau iechyd Sylfaenol ac Eilaidd / Trydyddol
- ❖ Pa mor aml oedd cleifion yn teithio i wasanaethau iechyd Sylfaenol ac Eilaidd / Trydyddol
- ❖ Pa mor hir mae hi'n cymryd i gleifion deithio i wasanaethau iechyd Sylfaenol / Trydyddol
- ❖ Os oedd cleifion angen cymorth i deithio i wasanaethau iechyd Sylfaenol ac Eilaidd / Trydyddol, pwy fyddai'n eu helpu
- ❖ Pa mor hawdd neu anodd yw hi i gleifion deithio i wasanaethau iechyd Sylfaenol ac Eilaidd / Trydyddol
- ❖ Effaith cludiant ar allu cleifion i fynychu gwasanaethau iechyd Sylfaenol ac Eilaidd / Trydyddol
- ❖ Sut oedd cleifion yn cael gwybodaeth am opsiynau teithio i unrhyw wasanaeth iechyd

Pwy sy'n cysylltu â ni

Roedd arolwg y CIC yn agored i gleifion oedd ag unrhyw brofiad o deithio i wasanaethau iechyd yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

Derbyniodd y CIC nifer o arolygon ar-lein ac ar bapur, er nad oedd pob ymatebwr wedi ateb pob cwestiwn. Yn ogystal, derbyniasom sylwadau trwy'r cyfryngau cymdeithasol a galwadau uniongyrchol i Swyddfa'r CIC.

Dewisodd 100% o ymatebwyr gwblhau fersiwn Saesneg ein harolwg.	Mae 45% o ymatebwyr yn defnyddio eu car eu hunain i deithio i wasanaethau iechyd Sylfaenol	Fel arfer dyw 82% o ymatebwyr ddim angen rhywun i'w helpu i deithio i wasanaethau iechyd Sylfaenol
Mae 33% o ymatebwyr wedi cael anhawster wrth geisio ymweld â rhywun yn yr ysbyty oherwydd problemau cludiant	Mae 49% o ymatebwyr yn defnyddio eu car eu hunain i deithio i wasanaethau iechyd Eilaidd / Trydyddol	Fel arfer, dyw 74% o ymatebwyr ddim angen rhywun i'w helpu i deithio i wasanaethau iechyd Eilaidd / Trydyddol




Beth a glywsom

Mae canfyddiadau'r arolwg wedi'u rhannu yn ddwy ran: Cludiant i Wasanaethau Iechyd Sylfaenol, a Chludiant i Wasanaethau Iechyd Eilaidd / Trydyddol.

Cludiant i Wasanaethau Iechyd Sylfaenol

Iechyd Sylfaenol: Y gwasanaethau iechyd hynny sy'n darparu'r pwynt gofal cyntaf o fewn neu gerllaw eich cymuned, gan gynnwys meddygfeydd, fferyllfeydd, deintyddion ac optegwyr.




Mae 24% o ymatebwyr yn cerdded i'w gwasanaethau iechyd Sylfaenol	Mae 16% o ymatebwyr yn ymweld â'u gwasanaethau iechyd Sylfaenol yn fisol	Mae 20% o ymatebwyr yn dweud bod teithio i wasanaethau iechyd Sylfaenol yn anodd
Mae 67% o ymatebwyr yn dibynnu ar aelod o'u teulu, partner neu briod i'w helpu i deithio i wasanaethau iechyd Sylfaenol	Mae 23% o ymatebwyr yn nodi bod cludiant weithiau neu'n aml yn eu hatal rhag mynychu gwasanaethau iechyd Sylfaenol	Mae 32% o ymatebwyr wedi bod yn hwyr i apwyntiad gwasanaeth iechyd Sylfaenol neu wedi'i gollu oherwydd problemau cludiant

Y math o gludiant a ddefnyddir

I gael syniad o sut mae cleifion yn teithio ar hyn o bryd, gofynnodd y CIC yn gyntaf i ymatebwyr roi gwybodaeth ar y math o gludiant y defnyddiant fel arfer i deithio i wasanaethau iechyd Sylfaenol. Dengys y canlyniadau bod mwyafrif yr ymatebwyr naill ai'n teithio mewn car neu'n cerdded.

Pa fath o gludiant rydych fel arfer yn ei ddefnyddio i wasanaethau iechyd Sylfaenol e.e. i Feddygfa?

Eich car eich hun	52
Car eich ffrind / teulu	10
Llogi'n breifat e.e. Tacsï	11
Beic	2
Bws	8
Cerdded	28
Cludiant Cymunedol (Hyblyg...)	2
Trên	0
Arall	2



I'r ymatebwyr hynny a atebodd 'arall' dim ond un a roddodd fanylion pellach:








'Doedd dim cludiant cyhoeddus ar gael'


Amllder y Teithio i Wasanaethau Iechyd

Yna gofynnodd y CIC i ymatebwyr pa mor aml maent yn ymweld â gwasanaethau iechyd Sylfaenol.



2. Pa mor aml rydych chi'n ymweld â gwasanaethau iechyd Sylfaenol?

	Sawl gwaith yr wythnos	1
	Unwaith yr wythnos	0
	Bob pythefnos	6
	Unwaith y mis	18
	Bob 2-3 mis	35
	Bob 6 mis	23
	Llai nag unwaith y flwyddyn	32



Er bod yr ymatebion yn amrywio, dangosodd y canlyniadau bod mwyafrif yr ymatebwyr yn mynychu Gwasanaethau Iechyd Sylfaenol naill ai bob 2-3 mis (30%), neu lai nag unwaith y flwyddyn (28%).

Pa mor Hir y mae'n cymryd i deithio i Wasanaethau Iechyd

Gofynnodd y CIC i'r ymatebwyr pa mor hir ar gyfartaledd roeddent yn ei dreulio'n teithio i wasanaethau iechyd Sylfaenol.



Mae 57% o ymatebwyr yn treulio 15 munud neu lai yn teithio i wasanaethau iechyd Sylfaenol.

Mae 30% o ymatebwyr yn treulio 20 – 30 munud ar gyfartaledd i wasanaethau iechyd Sylfaenol.

Mae 9% o ymatebwyr yn treulio 40 – 60 munud yn teithio i wasanaethau iechyd Sylfaenol.

Mae 2% o ymatebwyr yn treulio mwy na 60 munud yn teithio i wasanaethau iechyd Sylfaenol.

Cymorth wrth deithio



Yna gofynnodd y CIC i ymatebwyr a oeddent fel arfer angen rhywun i'w helpu i deithio i wasanaethau iechyd Sylfaenol.


Fel y dangosir yn y canlyniadau isod, nododd 82% o ymatebwyr nad oedd arnynt angen help gan unrhyw un i deithio i wasanaethau Iechyd Sylfaenol.

O ran yr ymatebwyr hynny a atebodd 'ydw' eu bod angen cymorth, gofynnodd y CIC i'r ymatebwyr roi gwybodaeth hefyd am bwy fyddai'n eu helpu fel arfer i deithio i wasanaethau iechyd Sylfaenol. Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr y byddent fel arfer yn derbyn help gan aelod o'r teulu, partner neu briod.


4. Ydych chi fel arfer angen rhywun i'ch helpu i wasanaethau iechyd Sylfaenol?

Mwy o fanylion

- Ydw
- Nac ydw



Rhoddodd y rhai a ddewisodd 'arall', yr ymatebion ychwanegol canlynol:



Anawsterau o ran Cludiant

Roedd y CIC yn awyddus i ddeall yr anawsterau y gallai fod cleifion yn eu hwynebu o ran cludiant wrth deithio i wasanaethau Iechyd Sylfaenol



Gofynnnon ni i ymatebwyr nodi pa mor hawdd yw hi iddynt deithio i'w gwasanaethau iechyd Sylfaenol.

Dyweddodd 72% o ymatebwyr wrth y CIC ei bod fel arfer neu weithiau yn hawdd teithio i'w gwasanaeth iechyd Sylfaenol.

Dyweddodd 20% o ymatebwyr ei bod fel arfer neu weithiau yn anodd teithio i'w gwasanaethau iechyd Sylfaenol.

Cadarnhaodd 8% o ymatebwyr nad oedd hi naill ai'n hawdd nac yn anodd teithio i'w gwasanaeth iechyd Sylfaenol.



I'r ymatebwyr hynny a deimlodd bod teithio i'w gwasanaeth iechyd Sylfaenol yn anodd, gofynnwn ni iddynt ymhelaethu ymhellach ar yr anawsterau hyn.


Ar gyfer y cwestiwn hwn, roedd hawl gan yr ymatebwyr i ddewis pob opsiwn yn yr atebion oedd yn berthnasol i'w hamgylchiadau nhw. Fel y dangosir yn y graff isod, yr anawsterau mwyaf cyffredin a ddywedwyd wrthym oedd:

- Nad oedd ganddynt gar eu hunain, nac yn gallu defnyddio car ffrind, aelod teulu neu ofalwr
- Cludiant cyhoeddus ddim ar gael
- Cludiant cymunedol naill ai ddim ar gael neu'n anghyfleus
- Rhy bell iddynt gerdded
- Anodd defnyddio neu drefnu cludiant ar gyfer eu hapwyntiadau

7. Os ateboch chi 'Weithiau'n anodd' neu 'Fel arfer yn anodd' i gwestiwn 6, beth yw'r rhesymau am hyn? Dewiswch POB opsiwn sy'n berthnasol.

Ymatebion

●	Dim yn defnyddio car fy hun	11
●	Dim yn defnyddio car pobl eraill	10
●	Cludiant cyhoeddus ddim ar gael	10
●	Rhwystrau i gyrraedd	7
●	Cludiant cymunedol ddim ar gael	10
●	Mae'n rhy ddrud	5
●	Mae'n rhy bell i mi gerdded	13
●	Anodd defnyddio neu drefnu cludiant	10
●	Parcio'n gyfyngedig / ddim ar gael	7
●	Arall	4



Mae'r ymatebion eraill a ddewiswyd yn yr adborth yn cynnwys:

'Mae'n cymryd dau berson i roi'r help digonol i'm gŵr oherwydd ei anhawster i symud'

'Dyw cludiant cyhoeddus ddim ar gael; dwi'n gallu cerdded ar hyn o bryd, ond wrth heneiddio fydd hyn ddim yn bosib bob amser'

'Does gen i ddim car fy hun nac yn defnyddio car rhywun arall (ffrind, teulu neu ofalwr). Mae'n rhy bell i mi gerdded; rwy'n defnyddio cludiant cymunedol gan fod cludiant cyhoeddus yn golygu sawl bws bob ffordd. Mae angen i mi neilltuo rhagor o amser gan fod y bysys yn annibynadwy, gwasanaeth wedi'i ddileu, yn rhedeg yn hwyr – gall gymryd mwy na 1- 1/2 awr i fynd un ffordd i apwyntiad ysbyty'

'Dim cludiant cyhoeddus ar gael. Mae modd cerdded i Feddygfa Dinas Powys (3-4 km) ond mae rhan o Ash Path yn rhy gul gyda mieri yn ymwthio o'r clawdd, er mai hwn yw'r llwybr uniongyrchol a'r unig un o St Cyres i DP-The Murch. Cafwyd ymgynghoriad â Chyngor y Fro am safon y llwybr sy'n wael ers 18 mis, ond chafodd dim ei wneud. Yn eu cynllun 'Teithio Llesol' dylai'r Feddygfa/Canolfan Iechyd fod yn gyfrifol am asesu a rhoi pwysau ar y Cyngor i ddatrys rhwystrau o'r fath i gerddwyr a seiclwyr llwybrau mynediad'



Roedd y CIC eisiau gwell dealltwriaeth o amgylchiadau cludiant y cleifion hynny a atebodd bod teithio i wasanaethau iechyd Sylfaenol 'fel arfer yn hawdd' neu 'weithiau'n hawdd', ac felly gofynnwyd iddynt roi mwy o wybodaeth pam eu bod wedi ateb fel hynny.

Ar gyfer y cwestiwn hwn, cafodd yr ymatebwyr yr hawl i ddewis pob opsiwn yn yr atebion a oedd yn berthnasol i'w hamgylchiadau nhw. Yr atebion a ddewiswyd amlaf oedd:


- Ymatebwyr yn berchen eu car eu hunain, neu'n gallu defnyddio car ffrind, aelod teulu neu ofalwr.
- Ymatebwyr yn cadarnhau ei bod yn ddigon agos iddynt gerdded

- Ymatebwyr yn nodi bod parcio ar gael yn ei gwasanaeth iechyd Sylfaenol, neu gerllaw.

8. Os ateboch chi 'Weithiau'n hawdd' neu 'Fel arfer yn hawdd' i gwestiwn 6, beth yw'r rhesymau am hyn? Dewiswch POB opsiwn sy'n berthnasol

Mwy o fanylion

●	Mae gen i fy nghar fy hun	55
●	Gallaf fynd yng nghar rhywun aral	8
●	Mae cludiant cyhoeddus ar gael	14
●	Does dim rhwystrau hygrychedd	3
●	Cludiant cymunedol ar gael	2
●	Rwy'n gallu ei fforddio	16
●	Mae'n ddigon agos i mi gerdded	38
●	Hawdd defnyddio / trefnu cludiant	4
●	Llefydd parcio ar gael neu'n agos i...	24
●	Arall	11



O ran y rhai a ddewisodd 'arall', dim ond un ymatebydd a roddodd yr wybodaeth ychwanegol ganlynol:

'Dim cludiant cyhoeddus ar gael'





Effaith Cludiant ar Ofal Iechyd

Gofynnodd y CIC i ymatebwyr roi gwybodaeth ar yr effaith y mae cludiant yn cael ar eu gallu i gael mynediad at wasanaethau iechyd Sylfaenol.



Dangosodd y canlyniadau bod mwyafrif llethol yr ymatebwyr wedi cadarnhau mai anaml neu ddim o gwbl y mae cludiant yn eu hatal rhag cael mynediad at wasanaethau iechyd Sylfaenol.

9. Pa effaith y mae cludiant yn ei gael ar eich gallu i gael mynediad at wasanaethau iechyd Sylfaenol?

	Yn aml yn fy rhwystro rhag cael mynediad at	12
	Weithiau yn fy rhwystro rhag cael	15
	Anaml yn fy rhwystro rhag cael	32
	Byth yn fy rhwystro rhag cael	56



I'r ymatebwyr hynny a atebodd 'Yn aml yn fy rhwystro' neu 'weithiau yn fy rhwystro' rhag cael mynediad at wasanaethau iechyd Sylfaenol, gofynnnon ni iddynt egluro'u hymateb ymhellach.



Y rhesymau mwyaf cyffredin a glywsom oedd y canlynol:

- Ymatebwyr yn datgan nad oedd ganddynt gar eu hunain na'n gallu defnyddio car rhywun arall.
- Ymatebwyr yn datgan nad yw cludiant cymunedol ar gael nac yn gyfleus.
- Ymatebwyr yn datgan ei fod yn rhy bell iddynt gerdded.
- Ymatebwyr yn cadarnhau ei bod yn anodd defnyddio neu drefnu cludiant ar gyfer eu hapwyntiadau.


I'r rhai a ddewisodd 'arall', un ymatebydd yn unig a roddodd yr wybodaeth ychwanegol ganlynol:



*'Teulu ddim ar gael i fynd
â fi – maen nhw'n
gweithio'*

10. Os ateboch chi 'Yn aml yn fy rhwystro' neu 'Weithiau yn fy rhwystro' i gwestiwn 9, beth yw'r rhesymau am hyn? Dewiswch POB opsiwn sy'n berthnsaol.

●	Dioes gen i ddim car fy hunan	14
●	Methu defnyddio car rhywun arall	8
●	Cludiant cyhoeddus ddim ar gael	11
●	Rhwystrau hygryrchedd ...	8
●	Cludiant cymunedol ddim ar gael	12
●	Mae'n rhy ddrud	7
●	Mae'n rhy bell i mi gerdded	15
●	Anodd defnyddio/trefnu cludiant	13
●	Parcio yn gyfyngedig / ddim ar gael	4.
●	Arall	2



Yn Hwyr i Apwyntiad neu Wedi'i Golli

Gofynnodd y CIC i ymatebwyr roi gwybod a oeddent erioed wedi bod yn hwyr i apwyntiad neu wedi'i golli yn y gwasanaeth iechyd Sylfaenol oherwydd problemau gyda chludiant. Clywn yn aml am barcio fel y broblem allweddol... Mae'n dda nodi bod 68% o ymatebwyr wedi nodi na fuont yn hwyr i apwyntiad na'i golli oherwydd problemau cludiant, tra chadarnhaodd 32% o ymatebwyr iddynt fod yn hwyr i apwyntiad neu iddynt ei golli oherwydd problemau cludiant.

Yna gofynnodd y CIC i'r ymatebwyr hynny a atebodd 'do' i roi'r rhesymau am hyn. Y rhesymau mwyaf cyffredin oedd:

- Ymatebwyr yn datgan nad oes ganddynt gar eu hunain, nac yn gallu defnyddio car rhywun arall.

- Ymatebwyr yn datgan bod y cludiant cyhoeddus yn hwyr neu wedi'i ganslo.
- Ymatebwyr yn datgan na fedrent ddod o hyd i le i barcio
- Ymatebwyr yn dewis ateb 'arall' i'r cwestiwn hwn

I'r rhai a atebodd 'arall', dyma oedd eu rhesymau:

Tacsi yn hwyr iawn

'Traffig trwm'

'Dim tacsi ar gael'

Teiar wedi chwythu

'Apwyntiad 9yb ac yn teithio o ochr Casnewydd o Gaerdydd i OPD Llandochoau yn ystod traffig oriau brig; amseroedd apwyntiadau annerbyniol – dylent ystyried yr ardaloedd y mae cleifion yn gorfod teithio ohonynt a dylai fod OPD yn symud gyda'r amser; h.y. y tu allan i oriau 9-5, angen hyblygrwydd 24/7'

'Y ddau dro rôn i'n feichiog (gan gynnwys yr adeg rôn i wedi pasio'r dyddiad disgwyliedig) rôn i'n rhy anghyfforddus i gerdded (wadlo) na gyrru fy nghar. Felly rôn i'n seiclo i bobman. Heb y math hwn o drafndiaeth, mwy na thebyg fydden i fwy na thebyg ddim wedi gallu wynebu ail feichiogrwydd. Y broblem yw nad oedd cyfleusterau parcio beic yn UHW yn edrych yn ddiogel iawn. Hefyd, roedd pobl yn smocio gerllaw ac felly doedd gen i fawr o awydd i fynychu apwyntiadau'

'traffig trwm/araf'

'Tagfeydd traffig'

'Ambiwlans wedi'i ganslo ar y diwrnod'

Cludiant i Wasanaethau Iechyd Eilaidd / Trydyddol

Iechyd Eilaidd / Trydyddol: y gwasanaethau iechyd hynny sy'n darparu gofal mewn ysbytai (gan gynnwys ysbytai cymunedol) ac yn trin mathau penodol o salwch, megis canser.




<p>Mae 49% o ymatebwyr yn defnyddio'u car eu hunain i deithio i wasanaethau iechyd Eilaidd / Trydyddol</p>	<p>Mae 3% o ymatebwyr yn ymweld â gwasanaethau iechyd Eilaidd / Trydyddol sawl gwaith yr wythnos</p>	<p>Mae 70% o ymatebwyr yn dibynnu ar aelod o'r teulu, partner neu briod i'w helpu i deithio i wasanaethau iechyd Eilaidd / Trydyddol</p>
<p>Nododd 43% o ymatebwyr bod teithio i wasanaethau iechyd Eilaidd / Trydyddol yn anodd</p>	<p>Nododd 31% o ymatebwyr bod cludiant weithiau neu'n aml yn eu rhwystro rhag cael mynediad at wasanaethau iechyd Eilaidd / Trydyddol</p>	<p>Mae 41% o ymatebwyr wedi bod yn hwyr neu wedi colli apwyntiad gwasanaethau iechyd Eilaidd / Trydyddol oherwydd problemau cludiant</p>

Yna ailadroddodd y CIC bob cwestiwn a ofynnwyd yn ymwneud â chludiant i wasanaethau iechyd Sylfaenol, ac i wasanaethau iechyd Eilaidd /Trydyddol.

Y Mathau o Gludiant a Ddefnyddir

Gofynnodd y CIC i ymatebwyr am wybodaeth ar y math o drafnidiaeth maent fel arfer yn ei ddefnyddio i deithio i wasanaethau iechyd Eilaidd / Trydyddol. Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr eu bod fel arfer yn teithio mewn car.

13. Pa fath o drafnidiaeth rydych chi 'n defnyddio fel arfer i deithio i wasanaethau iechyd Eilaidd / Trydyddol e.e. ysbyty?



Rhoddwyd y sylwadau canlynol gan yr ymatebwyr hynny a atebodd 'arall':

'Teulu neu ffrind'

'Bws Parcio a Theithio'

'Dim yn berthnasol'

'Gyrru i Barc y Rhath, yna cerdded'


Amllder y Teithio i Wasanaethau Iechyd

Gofynnwn ni wedyn am wybodaeth ar ba mor aml roedd yr ymatebwyr yn teithio i wasanaethau iechyd Eilaidd / Trydyddol. Er bod mwyafrif yr ymatebwyr yn dweud eu bod yn mynychu'r gwasanaethau hyn llai nag unwaith y flwyddyn, da oedd gweld hefyd ein bod yn gallu cael adborth gan ymatebwyr sy'n mynychu'n rheolaidd gan fod hyn o help i gael mewnlwg ar sut mae cleifion yn teithio i'r gwasanaethau hyn yn rheolaidd.

14. Pa mor aml rydych chi'n ymweld â gwasanaethau Eilaidd / Trydyddol?

Mwy o fanylion

●	Sawl gwaith yr wythnos	4
●		3
●	Bob pythefnos	2
●	Misol	10
●	Bob 2-3 mis	28
●	Bob 6 mis	19
●	Llai nag un waith y flwyddyn	49



Pa mor Hir y mae'n Cymryd i Deithio i Wasanaethau Iechyd

Yna gofynnodd ein harolwg i ymatebwyr roi gwybodaeth am faint o amser ar gyfartaledd y mae'n cymryd iddynt deithio i wasanaethau iechyd Eilaidd / Trydyddol.

Mae 7% o'r ymatebwyr yn treulio 15 munud neu lai ar gyfartaledd yn teithio i wasanaethau iechyd Eilaidd / Trydyddol.

Mae 44% o'r ymatebwyr yn treulio 20 – 30 munud ar gyfartaledd yn teithio i wasanaethau Eilaidd / Trydyddol.

Mae 33% o'r ymatebwyr yn treulio 30 – 60 munud ar gyfartaledd yn teithio i wasanaethau iechyd Eilaidd / Trydyddol .

Mae 7% o'r ymatebwyr yn treulio 60 - 90 munud ar gyfartaledd yn teithio i wasanaethau Eilaidd / Trydyddol.

Mae 3% o'r ymatebwyr yn treulio 2 - 4 awr ar gyfartaledd yn teithio i wasanaethau iechyd Eilaidd / Trydyddol.



Cymorth wrth Deithio

Gofynnodd y CIC i ymatebwyr gadarnhau a oeddent yn arferol angen rhywun i'w helpu i deithio i wasanaethau iechyd Eilaidd / Trydyddol.



Cadarnhaodd 26% o ymatebwyr eu bod fel arfer angen help gan rywun wrth deithio i wasanaethau Eilaidd / Trydyddol.



Cadarnhaodd 74% o'r ymatebwyr nad ydynt fel arfer angen help gan rywun wrth deithio i wasanaethau iechyd Eilaidd / Trydyddol.

16. Ydych chi fel arfer angen rhywun i'ch helpu i deithio?

Mwy o fanylion

	Ydw	30
	Nac ydw	85



Gofynnnon ni wedyn i'r ymatebwyr gyda phwy y maent yn derbyn help fel arfer wrth deithio i wasanaethau iechyd Eilaidd /

17. O ateboch chi 'Ydw' i gwestiwn 17, pwy fel arfer sy'n eich helpu chi i deithio i wasanaethau Eilaidd / Trydyddol? health

● Aelod o'r teulu	13
● Partner neu briod	8
● Ffrind	5
● Gweithiwr gofal proffesiynol	2
● Arall	2



Trydyddol. Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn y byddent yn derbyn help gan aelod o'r teulu, partner neu briod.

Rhoddodd y rhai a atebodd 'Arall' yr wybodaeth ganlynol:

'Gwirfoddolwr elusen'

'Gyrrwr'

Anawsterau Cludiant

Roedd y CIC yn awyddus i ddeall pa anawsterau o ran cludiant y gallai fod cleifion yn eu hwynebu wrth deithio i wasanaethau iechyd Eilaidd / Trydyddol.



Gofynnnon ni i ymatebwyr nodi pa mor hawdd yw hi iddynt deithio i wasanaethau iechyd Eilaidd / Trydyddol.

Dywedodd 45% o'r ymatebwyr wrthym ei bod fel arfer neu weithiau yn hawdd teithio i'w gwasanaeth Eilaidd / Trydyddol.

Dyweddodd 43% o'r ymatebwyr wrthym ei bod fel arfer neu weithiau yn anodd teithio i'w gwasanaeth Eilaidd / Trydyddol.

Dyweddodd 12% o'r ymatebwyr ei bod naill ai ddim yn hawdd nac yn anodd teithio i'w gwasanaeth Eilaidd / Trydyddol.

Er mwyn deall yn well y rhesymau y tu ôl i anawsterau'r ymatebwyr, gofynnnon ni iddynt i roi gwybodaeth ychwanegol pam roeddent wedi ateb 'fel arfer yn anodd' neu 'weithiau'n anodd'.


Ar gyfer y cwestiwn hwn, cafodd yr ymatebwyr yr hawl i ddewis pob opsiwn yn yr atebion a oedd yn berthnasol i'w hamgylchiadau nhw. Yr atebion mwyaf cyffredin oedd

- Doedd ymatebwyr ddim yn gallu defnyddio'u car eu hunain, na char ffrind, aelod o'r teulu neu ofalwr
- Cludiant cyhoeddus ddim ar gael.
- Roedd hi'n rhy bell iddynt gerdded.
- Mae parcio'n gyfyngedig neu ddim ar gael yn agos i'w gwasanaeth iechyd.

19 Os ateboch chi 'Weithiau'n anodd'neu 'Fel arfer yn anodd' i gwestiwn 19, beth yw'r rhesymau am hyn? Dewiswch POB opsiwn sy'n berthnasol

Mwy o fanylion

●	Does gen i ddim car fy hun	12
●	Dim mynediad at gar rhywun ar.....	6
●	Cludiant gyhoeddus ddim ar gael	20
●	Rhwystrau hygrychedd	9
●	Cludiant cymunedol ddim ar gael	12
●	Mae'n rhy ddrud	10
●	Mae'n rhy bell i mi gerdded	26
●	Mae'n anodd cael mynediad / trefnu...	15
●	Parcio'n gyfyngedig / ddim y=ar gael	26
●	Arall	6



Rhoddodd y rhai a atebodd 'arall' y sylwadau ychwanegol canlynol:

'Parcio'

'Taith hir ar ffyrdd prysur

'Angen caniatáu lot o amser oherwydd tagfeydd traffig a neilltuo amser i ddod o hyd i le i barcio.'

'Teulu ar gael i fynd â fi'

""Does gen i ddim car fy hunan nac yn gallu defnyddio car rhywun arall,(ffrind, teulu neu ofalwr). Cludiant cyhoeddus ddim ar gael / ddim yn gyfleus; mae'n rhy bell i mi gerdded; Dyw Cludiant Cyhoeddus ddim yn rhedeg digon aml.'"



Roedd y CIC hefyd eisiau gwell dealltwriaeth o amgylchiadau'r rheiny a atebodd 'Fel arfer yn hawdd' neu 'Weithiau'n hawdd' ac felly gofynnwyd i'r ymatebwyr roi sylwadau ychwanegol ynghylch y rhesymau am eu hatebion.


Ar gyfer y cwestiwn hwn, cafodd yr ymatebwyr yr hawl i ddewis pob opsiwn yn yr atebion a oedd yn berthnasol i'w hamgylchiadau nhw. Yr ymatebion mwyaf cyffredin oedd:

- Gallu defnyddio eu car eu hunain, neu gar ffrind, aelod o'r teulu neu ofalwr.
- Ymatebwyr yn nodi eu bod yn gallu fforddio hyn.
- Ymatebwyr wedi dewis yr ateb 'arall'.

20. Os ateboch chi 'Weithiau'n hawdd' neu 'Fel arfer yn hawdd' i gwestiwn 20, beth yw'r rhesymau am hyn? Dewiswch POB opsiwn sy'n berthnasol.

Mwy o fanylion

●	Gallaf ddefnyddio fy nghar fy hun	48
●	Gallaf ddefnyddio car rhywun arall	15
●	Cludiant cyhoeddus ar gael	12
●	Dim rhwystrau hygrychedd	1
●	Cludiant cymunedol ar gael	5
●	Rwyn gallu ei fforddio	18
●	Mae'n ddigon agos i mi gerdded	6
●	Hawdd defnyddio / trefnu.....	3
●	Parcio ar gael yn neu'n agos i.....	11
●	Arall	20



O'r ymatebwyr hynny a atebodd 'arall', dau yn unig a ddewisodd roi rhagor o sylwadau ar hyn:

'Diffyg cymhelliant i wneud rhywbeth ar fy mhen fy hun'

'Seiclo yno'n gyflym'

Effaith Cludiant ar Ofal Iechyd

Gofynnodd y CIC i ymatebwyr roi gwybodaeth am effaith cludiant ar eu gallu i gael mynediad at wasanaethau iechyd Eilaidd / Trydyddol.



Dyweddodd 10% o'r ymatebwyr ei fod yn aml yn eu rhwystro rhag cael mynediad at wasanaethau iechyd Eilaidd / Trydyddol.

Dyweddodd 22% o'r ymatebwyr ei fod weithiau yn eu rhwystro rhag cael mynediad at wasanaethau iechyd Eilaidd / Trydyddol.

Dyweddodd 28% o'r ymatebwyr mai anaml iawn y mae hyn yn ei hatal rhag cael mynediad at wasanaethau iechyd Eilaidd / Trydyddol.

Dyweddodd 41% o'r ymatebwyr nad oedd hyn byth yn eu hatal rhag cael mynediad at wasanaethau iechyd Eilaidd / Trydyddol.

Gofynnwn ni wedyn i'r ymatebwyr hynny a ddywedodd bod cludiant 'yn aml' neu 'weithiau' yn effeithio ar eu gallu i gael mynediad at wasanaethau iechyd Eilaidd / Trydyddol i roi'r rhesymau am hyn.



Ar gyfer y cwestiwn hwn, rhoddwyd caniatâd i ymatebwyr ddewis pob opsiwn yn yr atebion a oedd yn berthnasol i'w hamgylchiadau nhw. Er bod nifer yr ymatebion a dderbyniwyd am bob datganiad yn debyg, yr atebion mwyaf cyffredin

oedd:


- Doedd yr ymatebwyr ddim yn gallu defnyddio eu car eu hunain, na char rhywun arall.
- Cludiant cyhoeddus ddim ar gael.
- Cludiant cymunedol ddim ar gael neu'n anghyfleus.
- Mae'n rhy bell iddynt gerdded.

- Parcio yn gyfyngedig neu ddim ar gael yn neu yn agos i'r gwasanaeth iechyd.

22. Os ateboch chi 'Yn aml yn rhwystr' neu 'Weithiau yn rhwystr' i gwestiwn 21, beth yw'r rhesymau am hyn? Dewiswch POB opsiwn sy'n berthnasol

Mwy o fanylion

	Methu defnyddio fy nghar fy hun	13
	Dim mynediad at gar rywun arall	10
	Cludiant cyhoeddus ddim ar gael	17
	Rhwystrau hygrychedd	9
	Cludiant cymunedol ddim ar gael	14
	Mae'n rhy ddrud	10
	Mae'n rhy bell i mi gerdded	18
	Anodd defnyddio / trefnu	12
	Parcio yn gyfyngedig / ddim ar gael	13
	Arall	4



Rhoddodd y rhai a atebodd 'arall' yr wybodaeth ychwanegol ganlynol:

'Traffig yn ddrwg'

'Ffyrdd gorlawn'

'Mae gallu cael cludiant cymunedol yn broblem weithiau, a gall bysus gymryd 1-1/2 awr bob ffordd'



'Mae trafndiaeth gyhoeddus yn brin iawn a ddim yn mynd yn agos i un o'r ysbytai dwi'n mynd iddo, a does dim cludiant cyhoeddus o gwbl yn mynd i'r ysbyty arall o ble rwy'n byw.'

Yn Hwyr i Apwyntiad neu Wedi'i Golli

Gofynnodd y CIC i'r ymatebwyr roi gwybod iddynt a oeddent erioed wedi bod yn hwyr i apwyntiad gwasanaeth iechyd Eilaidd / Trydyddol neu wedi'i golli oherwydd problemau cludiant.



Cadarnhaodd 41% o'r ymatebwyr eu bod wedi bod yn hwyr i wasanaeth iechyd Eilaidd / Trydyddol neu wedi'i golli oherwydd problemau cludiant.

Cadarnhaodd 59% o'r ymatebwyr nad oeddent wedi bod yn hwyr i apwyntiad gwasanaeth iechyd Eilaidd / Trydyddol oherwydd neu wedi'i golli oherwydd problemau cludiant.

I'r ymatebwyr hynny a atebodd 'ydw' i fod yn hwyr i wasanaeth iechyd Eilaidd/ Trydyddol neu wedi'i golli oherwydd problemau cludiant gofynnnon ni iddynt i ymhelaethu ymhellach ar y rhesymau am hyn.




Ar gyfer y cwestiwn hwn, cafodd yr ymatebwyr ganiatâd i ddewis pob opsiwn yn yr atebion a oedd yn berthnasol i'w hamgylchiadau nhw. Yr atebion mwyaf cyffredin oedd:

- Dim mynediad ganddynt i'w car eu hunain na char rhywun arall.
- Cludiant cyhoeddus yn hwyr neu wedi'i ganslo.
- Methu dod o hyd i le i barcio.

24. Os ateboch chi 'Ydw' i gwestiwn 23, beth oedd y rhesymau am hyn? Dewiswch POB opsiwn sy'n berthnasol.

Mwy o fanylion

●	Diim car fy hunan	9
●	Methu defnyddio car rhywun arall	7
●	Cludiant cyhoeddus yn hwyr neu...	15
●	Rhwysterau hygyrchedd	4
●	Cludiant cymunedol yn brin	9
●	Methu ei fforddio	1
●	Cymryd yn hirach i mi gerdded i..	1
●	Methu trefnu cludiant	8
●	Methu ffeindio lle i barcio	21
●	Arall	8



Rhoddodd yr ymatebwyr a atebodd 'arall' i'r cwestiwn uchod y sylwadau ychwanegol canlynol:

*'Traffig annisgwyl
neu ddamwain'*

*Tacsi yn aml
yn hwyr*

*'Apwyntiad 9yb a
theithio o ochr Casnewydd
i Gaerdydd yn ystod
traffig oriau brig'*

*'Oediadau wrth gael fy
nghasglu gan ambiwlans
di-argyfwng'*

*'Dim cludiant
cyhoeddus'*

'Gofal plant'

37

Ymweliadau ag Ysbytai

Roedd y CIC yn awyddus hefyd i wybod a oedd problemau cludiant wedi effeithio erioed ar allu'r ymatebwyr i ymweld â rhywun yn yr ysbyty.

Cadarnhaodd 33% o'r ymatebwyr bod problemau cludiant wedi effeithio ar eu gallu i ymweld â rhywun yn yr ysbyty.

'Parcio i feiciau ddim bob amser yn saff a phobl yn ysmegu yno weithiau'

Cadarnhaodd 67% o'r ymatebwyr nad oedd problemau cludiant erioed wedi effeithio ar eu gallu i ymweld â rhywun yn yr ysbyty.



Yna gofynnodd y CIC i'r ymatebwyr hynny a oedd wedi ateb 'ydw' i'r cwestiwn uchod roi'r rhesymau am eu hatebion.

Ar gyfer y cwestiwn hwn, cafodd yr ymatebwyr ganiatâd i ddewis pob opsiwn yn yr atebion a oedd yn berthnasol i'w hamgylchiadau nhw. Mae'r atebion mwyaf cyffredin wedi'u nodi isod:


- Dywedodd yr ymatebwyr nad oeddent yn gallu defnyddio eu car eu hunain, na char rhywun arall.
- Dywedodd yr ymatebwyr bod cludiant cyhoeddus yn hwyr neu wedi'i ganslo.
- Dywedodd yr ymatebwyr nad oeddent yn medru dod o hyd i le i barcio.

26.

Os ateboch chi 'Ydw' i gwestiwn 26, beth oedd y rhesymau am hyn? Dewiswch POB opsiwn sy'n berthnasol.

Mwy o fanylion

●	Dim car fy hunan	13
●	Methu defnyddio car rhywun arall	14
●	Cludiant cyhoeddus yn nwyr neu..	14
●	Rhwysterau hygrychedd	4
●	Cludiant cyhoeddus yn	10
●	Methu ei ffordio	11
●	Cymryd yn hirach i mi gerdded i...	1
●	Methu trefnu cludiant	8
●	Methu ffeindio lle i barcio	15
●	Arall	5



Gofynnwn ni wedyn i'r ymatebwyr hynny a atebodd 'arall' roi gwybodaeth bellach ar hyn. Un ymatebydd yn unig a ddewisodd roi sylwadau ychwanegol:

'Dim mewn cyflwr ffit i yrru'

Gwybodaeth ar Gludiant i Wasanaethau Iechyd

Yn adran olaf y CIC gofynnwyd i'r ymatebwyr roi adborth am bwy y byddent yn cysylltu â nhw a sut maent yn cael gafael ar wybodaeth am opsiynau teithio i unrhyw wasanaeth iechyd.



Ar gyfer y cwestiwn hwn, rhoddwyd caniatâd i ymatebwyr ddewis pob opsiwn yn yr atebion a oedd yn berthnasol i'w hamgylchiadau nhw.

Dywedodd 29% o'r ymatebwyr y byddent yn cysylltu â darparwr cludiant am wybodaeth ar opsiynau teithio i wasanaeth iechyd.

Nododd 21% o'r ymatebwyr y byddent yn cysylltu â'r gwasanaeth iechyd.

Cadarnhaodd 6% o'r ymatebwyr y byddent yn cysylltu â grŵp lleol /cymunedol am wybodaeth.


Byddai 34% o'r ymatebwyr yn cysylltu â Theulu / Ffrind.


Dewisodd 10% o'r ymatebwyr ateb 'Arall'.

Gofynnwyd wedyn i'r ymatebwyr a atebodd 'Arall' roi sylwadau pellach ar hyn.

'Chwilio ar Google'

'Taksi'






Yn yr arolwg gofynnwyd i'r ymatebwyr sut fyddent fel arfer yn cael gafael ar wybodaeth am opsiynau teithio i unrhyw wasanaeth iechyd, a dywedodd y mwyafrif ohonynt eu bod yn cael yr wybodaeth hon ar-lein. Er hyn, roedd llythyrau apwyntiadau a'r ffôn hefyd yn dal i gael eu hystyried yn ddull poblogaidd o gael gwybodaeth.

28. Sut rydych chi'n cael gwybodaeth am opsiynau teithio i unrhyw wasanaeth iechyd? Dewiswch POB opsiwn sy'n berthnasol i chi.

Mwy o fanylion

Ar-lein	59
Cyfryngau cymdeithasol	7
Ar lafar	19
Cylchlythyrau	0
Ffôn	21
Taflenni	8
Hysbysiadau am wasanaethau iechyd	7
Grŵp lleol / cymunedol	8
Papurau Newydd / cylchgronau	9
Llythyrau apwyntiadau	27
Arall	15



Rhoddodd yr ymatebwyr a atebodd 'arall' y sylwadau ychwanegol canlynol:

'Dim ar gael'

'Rhyngrwyd'

'Chwilio ar-lein'

Y cais olaf a ofynnwyd i'r ymatebwyr yn yr arolwg hwn oedd am unrhyw sylwadau pellach y dymument eu cyflwyno ar y pwnc o Gludiant i Wasanaethau Iechyd.

Y ddau brif anhawster o ran cludiant i wasanaethau iechyd a nodwyd gan fwyafrif llethol yr ymatebwyr oedd naill ai diffyg neu anghysonder cludiant cyhoeddus a phrinder lle i barcio. O ystyried bod yr atebion blaenorol wedi amlygu'r mater o barcio ceir a chludiant fel yr anawsterau mwyaf cyffredin a wynebir gan bobl, mae'n amlwg bod hon yn broblem fawr.

'Fysen i'n defnyddio'r bws pe bai'r gwasanaeth yn fwy dibynadwy.'

'Mae'r gwasanaethau bws o'r lle rwy'n byw yn wirioneddol wael.'

'Er bod Cyngor Casnewydd yn rhedeg naw siwrnai y dydd i Ysbyty'r Heath, dyw'r bysus ddim yn casglu yn ein hardal ni er bod rhaid iddynt ddod ffordd hyn.'

'Ar hyn o bryd dwi'n gallu symud a cherdded yn weddol dda ac felly mae cyrraedd y feddygfa yn iawn. Dim cystal serch hynny i brif ysbytai Caerdydd. Er bod cludiant cyhoeddus ar gael yn agos iawn i ble rwy'n byw, dwi yn poeni am yr adeg yn y dyfodol pan fyddaf yn cael mwy o drafferth i symud.'

'Darpariaeth wael iawn sydd gan Gyngor Sir Caerdydd o ran cysylltiadau cludiant cyhoeddus ac isadeiledd ar draws y rhan fwyaf o Gaerdydd. Bydd newidiadau cyfreithiol diweddar yng nghyfyngiadau cyflymder yn gwaethygu'r sefyllfa hon (annhrefn llwyr ac amseroedd teithio).'

'Dwi'n ddigon ffodus i fedru fforddio tacsï os oes angen i fi fynd i'r ysbyty fy hunan neu i ymweld â rhywun. Serch hynny, i'r rheiny sy'n dibynnu ar gludiant cyhoeddus (fel fi) mae angen gwella'r cludiant i wasanaethau iechyd. Mae rhai mannau parcio a theithio yng Nghaerdydd ond nid ym mhobman ac mae'r gwasanaeth bws yn dda mewn rhai ardaloedd a ddim yn dda o gwbl mewn ardaloedd eraill. Mae mynd ar draws Caerdydd o un faestref i'r llall yn anodd iawn ac yn gwaethygu. Dyw bysus ddim mor ddibynadwy ag yr oeddent gynt ac mae'r traffig yn llawer gwaeth.'

'Y broblem fwyaf yw pellter a diffyg cludiant cyhoeddus at y gwasanaeth y mae'n rhaid i mi fynd iddo.'

'Dibynadwyedd yw'r ffactor allweddol wrth ddefnyddio cludiant cyhoeddus h.y.bws. Mae darpariaeth bysus lleol yn annibynadwy iawn.'

'Gwasanaeth bws yn ofnadwy yn fy ardal.'

'Yn y gorffennol dwi wedi ceisio defnyddio cludiant cyhoeddus i gyrraedd Ysbyty Athrofal Cymru ac roedd rhaid i mi gynllunio ar gyfer dal 2 fws. Roedd hynny'n iawn gan mod i'n gwybod y byddai oedi gyda'r cysylltiad ac felly wedi neilltuo digon o amser ar gyfer yr oedi hwn. Serch hynny ar y ffordd nôl, roedd hi'n hwyr y prynhawn, y bws yn brysur iawn a llafurus gan ei fod yn teithio ar hyd Western Avenue a chasglu yn y coleg.'

'Rwy'n byw mewn ardal wledig a chludiant cyhoeddus yn brin ac annibynadwy. Mae apwyntiadau gofal iechyd yn gyfyngedig ac oni bai fod gen i fy nghludiant fy hun, digon o arian neu ffrindiau i fynd â fi at y gwasanaeth iechyd dwi ei angen byddai hyn yn dipyn o broblem i fi. Mae gen i ffôn hefyd sy'n fy ngalluogi i fynd ar-lein i chwilio am wybodaeth. Heb hyn, fyddwn i ddim yn gallu cael mynediad at ofal iechyd. Hefyd, os na fydden i'n gallu parcio, byddai hyn eto yn fy rhwystro rhag cael gofal iechyd.'

'Yr anhawster mwyaf i gyrraedd yr ysbyty yw parcio. Gall gymryd hydoedd i ffeindio lle ac felly rydych yn poeni y byddwch yn hwyr i'r apwyntiad. Hefyd, mae'n golygu fy mod mewn cyflwr meddwl anniddig a phryderus ar gyfer yr apwyntiad. Bellach, mae aelod o'r teulu yn fy ngollwng yn yr ysbyty ac yn fy nghasglu wedyn, ond os byddwn eisiau i aelod o'r teulu ddod mewn gyda fi byddai'r problemau parcio yr un fath.'

'Dylai parcio fod yn fwy hwylus i bawb.'

'Er nad yw cludiant at ddarparwyr iechyd yn broblem i fi, rwy'n sylweddoli'r anawsterau i'r rhai sydd heb gludiant eu hunain. Dwi'n cofio cwrdd â theulu mewn ystafell aros a oedd wedi cael taith bws hir iawn a chymhleth i gyrraedd eu hapwyntiad. Rôn i'n wirioneddol cyd-ymdeimlo â nhw..'

'Pan oeddwn i'n derbyn gofal cyn-geini, rôn i o hyd yn hwyr i apwyntiadau ac yn cyrraedd yno gyda phwysau gwaed uchel oherwydd straen parcio. Rôn i'n poeni o hyd ac o hyd am ble fydden i'n gallu parcio a minnau ar fin esgor.'

'Mae angen mwy o lefydd parcio yn yr ysbytai. O bosib nad yw pobl anabl yn gallu defnyddio cludiant cyhoeddus ac oherwydd problemau parcio, mae ein teulu ni fel arfer yn gorfod dibynnu ar rywun arall i fynd â nhw i apwyntiad ysbyty gan na ellir dibynnu ar y parcio. Mae cymaint o bobl yn dweud wrthyf bod y sefyllfa parcio yn achosi i apwyntiadau ysbyty fod yn anodd a llawn straen.'

'Dydw i na fy ngŵr yn gyrru felly mae angen tacsî i bob apwyntiad ysbyty i wneud yn siŵr mod i'n cyrraedd yr apwyntiadau. Os byddai'r gwasanaeth bws yn ddibynadwy fydden i'n gallu defnyddio'r bws weithiau, ond ar ôl triniaeth a theimlo'n ddi-hwyl, dyw hyn ddim bob amser yn opsiwn ymarferol.'

'Nifer o wahanol fysus i UHW neu CRI o Thornhill Caerdydd e.e. mae bysus Stagecoach, Adventure, bysus Caerdydd, bysus Caerffili yn mynd heibio'r Amlogfa, ond pwy sy'n eu rhedeg? Anodd archwilio'r safleoedd i gyd i weld pa rai sy'n mynd i UHW a pha safleoedd bysus y gallaf eu cyrraedd o'm cartref, sy'n angenrheidiol gan nad mod i'n cael anhawster i symud. Gall gyrru fod yn her os yw fy mhenglin yn chwyddo. Gall traffig fod yn drwm iawn. Ces fy nal yn ôl gan ddiwrnodau agored y Brifysgol. Chwyddodd fy mhenglin am i mi yrru'n hwy na'r disgwyl. Mae'r llwybr bws 86 yn newid o hyd - dim yn arfer mynd i'r Amlogfa ond nawr mae'n mynd yno. Fedrwn i ddim cerdded i Heol Hir lle roedd y safle bws gan ei fod bron yn filltir. Byssus ar hyd yr holl lwybrau'n cael eu canslo'n aml. Parcio yn CRI yn anodd. Mae gen i fathodyn anableded ar gyfer UHW ac mae digon o lefydd parcio yn y maes parcio aml-lawr. Anodd cyrraedd Llandochoau ar y bws. Fe yrrais ond anodd oedd parcio ger yr uned. Angen hwb cludiant unedig i weld yr HOLL lwybrau bysus sydd ar gael, a threnau, a llefydd parcio i'r anabl.'

'Dim ond 10 munud i ffwrdd yw ein hysbyty agosaf, Llandochoau. Er hyn, mae mwyafrif yr apwyntiadau yn ogystal â'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn UHW sy'n daith hir ac ar hyd ffyrdd prysur, felly rhaid caniatáu awr o deithio bob ffordd. Ychydig iawn o lefydd parcio serch hynny sydd yn UHL i gleifion ac ymwelwyr, yn enwedig gyda'r cynnydd mewn gwasanaethau yn yr ysbyty.'

Yn ogystal â'r sylwadau a dderbyniwyd ar barcio, soniwyd yn benodol am broblemau parcio i'r anabl.



'Rwy'n gallu gyrru fy hunan ond yn cael anhawster wrth gerdded o'r meysydd parcio i'r ysbyty. Mae llefydd parcio sy'n agos i'r ysbyty yn brin, felly dwi'n gyrru fy ngŵr i'w apwyntiadau e ac mae e'n fy ngyrru i. Os nad oes llefydd parcio ar gael, dim ond un ohonom sy'n mynd mewn i'r apwyntiad tra bod y llall yn gyrru sawl milltir i ffwrdd i barcio nes bydd yr apwyntiad ar ben a'r sawl sy'n dod allan yn ffonio am lifft adre. Does yr un ohonom yn gallu ymdopi â defnyddio cludiant cyhoeddus oherwydd problemau iechyd. Mae llai o lefydd parcio yn UHW – cawson nhw wared ar lefydd parcio i'r anabl i adeiladu uned newydd. Wedyn, caewyd y manau anabl ger mynedfa 5e ar gyfer gwaith cynnal a chadw heb roi rhybudd i ymwelwyr – gan adael tua dwsin o lefydd i'r anabl yn y maes parcio agosaf. Dyw'r llefydd parcio blaenorol i'r anabl yn eu maes parcio sydd bellach wedi cau'n barhaol heb gael eu hailagor!'

Cafodd y system Parcio a Theithio hefyd ei grybwyll yn benodol yn yr adborth a gawsom.

'Y tro diwethaf y ces i apwyntiad yn Adran Frys UHW, oedd ym mis Medi am 6yh. Ces sicrhad y byddwn allan erbyn 10yh. Mor falch mod i heb wrando ar y sawl a atebodd fy ngalwad. Ces fy nhemtio i ddefnyddio Parcio a Theithio Llanedern a taswn i wedi gwranddo, fydden i ddim wedi gallu defnyddio'r car gan ei bod yn 4 o'r gloch bore Sadwrn arna' i'n dod allan o'r Ysbyty. Felly roedd Parcio a Theithio wedi dod i ben a doedd dim City Circle. Hyn yn fy ngwneud yn gyndyn i fynd i UHW gan nad oes cludiant y tu allan i oriau ar gael yno.'

'Gan fod pwysau mawr ar y gwasanaeth parcio yn yr ysbyty mae ganddynt felly system parcio a theithio sydd fel arfer yn gweithio'n dda, ar wahân bod rhywun yn aros am amser hir weithiau am y bws cymunedol.'

Gadawodd ymatebwyr eraill adborth am eu profiadau gydag Ambiwylansys, cludiant ysbyty a chymunedol.

'Byddai cael ambiwlans ar gyfer yr hyn a drodd allan i fod yn doriad ym mhont yr ysgwydd a 12 pwyth wedi cymryd 12 awr, felly ges i lifft'


'Mae'n ymddangos nad ydw i byth yn derbyn gwybodaeth am gludiant. Dim ond unwaith y gwnes i ddefnyddio cludiant (a'r ysbyty yn trefnu) ond ces siwrnai hir iawn yn ôl am fod cleifion eraill yn cael eu cludo.'

'Does gen i fy hunan ddim problem gyda chludiant, Rwy'n gweithio gyda phobl hŷn ac mae 99% ohonyn nhw'n cael problemau gyda chludiant. Dydyn nhw ddim yn gallu cysylltu â'u cymuned am gymorth ac yn gorfod canslo apwyntiadau mewn ysbytai a meddygfeydd. Rwy'n gweithio gyda gwirfoddolwyr sy'n darparu cludiant penodol i bobl fynychu apwyntiadau. Rydym yn lled llwyddiannus ond yn anffodus does dim digon o wirfoddolwyr ar gyfer y bobl sydd angen cefnogaeth. Cludiant yw'r prif reswm nad yw gofalwyr yn gallu cael cymorth gan eu cymuned.'

Manteisiodd rhai ymatebwyr ar y cyfle i roi sylwadau am y pellter yr oedd angen iddynt deithio i gael mynediad at wasanaethau Meddyg Teulu.

'Mae angen i ddoctoriad ddychwelyd i'w harferion arferol o weithio. Mae teithio i glinig Sain Tathan yn anodd oni bai fod gennych chi gar. Mae angen iddynt ailgyflwyno'r holl glinigiau a gwasanaethau ym mhob lleoliad.'

'Pam oes rhaid i mi deithio mewn car i Bentre'r Eglwys pan y gallaf gerdded y 200 llath i fy mhreactis lleol yng Nghreigiau? Rôn i'n credu bod rheoli allyriadau yn bwysig, heb sôn am gostau tanwydd. Yn wir, mae gofyn i'r practis hwn ailfeddwl eu dulliau gweithio. Felly hefyd y fferyllfa – yn aml mae'n cymryd 2 neu 3 ymweliad gan nad yw cyffuriau'r presgripsiwn mewn stoc.'



Dysgu o'r hyn a glywsom

O ganlyniadau'r arolwg a gasglwyd gan y CIC, mae'n amlwg mai'r prif ddull o drafnidiaeth a ddefnyddir gan gleifion wrth fynychu apwyntiadau gofal Sylfaenol ac Eilaidd / Trydyddol yw'r car, naill ai eu car eu hunain neu gar rywun arall. Er bod hyn yn caniatáu iddynt gyrraedd pen eu taith, mae parcio wedyn yn achosi problem, yn enwedig wrth ymweld â gwasanaethau iechyd Eilaidd / Trydyddol.

Testun pryder oedd nodi bod prinder llefydd parcio i'r anabl wedi'i restru'n benodol yn ymatebion yr arolwg oherwydd dylai ddarparwyr gwasanaethau sicrhau bod llefydd parcio addas a hygyrch i'r cleifion anabl hynny sy'n teithio i wasanaethau iechyd mewn car.

Rhoddodd ymatebwyr yr arolwg wybod i'r CIC bod cludiant cyhoeddus naill ai'n rhy ddrud, yn annibynadwy neu ddim ar gael o gwbl yn dibynnu ar eu cyrchfan. Nododd sawl ymatebydd yn yr arolwg y byddent yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus pe bai'n fwy dibynadwy neu'n rhedeg yn amlach. Mae hyn o bwys mawr wrth ystyried cleifion nad sy'n gallu defnyddio eu car eu hunain na cherbyd rhywun arall. Mae'r CIC yn credu bod argaeledd cludiant cyhoeddus yn fater pwysig y mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau ei ystyried wrth fynd ati i ddarparu gwasanaethau iechyd heddiw ac i'r dyfodol.

Mae'n bwysig cofio hefyd y gallai defnyddio cludiant cyhoeddus fod yn gwbl anaddas i rai cleifion a allai fod yn wael iawn neu sy'n profi rhwystrau o ran hygyrchedd wrth geisio defnyddio cludiant cyhoeddus.

Testun pryder hefyd oedd nodi bod y gost yn rhwystr i nifer o ymatebwyr wrth geisio mynediad at bob math o ofal iechyd. Gallai hyn fod o anfantais annheg i'r cleifion hynny ar incwm is neu incwm sefydlog, neu i gleifion heb waith ar hyn o bryd. Mae hyn hefyd yn fater o ofid i'r cleifion hynny sy'n mynychu'r gwasanaethau hyn yn rheolaidd.

Dywedwyd hefyd wrth y CIC bod darpariaeth y Cludiant Cymunedol yn wael, ac mai ychydig iawn o ymatebwyr sy'n defnyddio'r dull hwn o drafnidiaeth wrth fynychu gwasanaethau iechyd Sylfaenol ac Eilaidd / Trydyddol. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr nad oedd Cludiant Cymunedol ar gael o gwbl iddynt hwy, hyn eto'n rhoi'r rheiny heb gar neu sy'n methu defnyddio cludiant dan anfantais anghymarus. Mae'n bwysig nodi hefyd bod meini prawf llym i gleifion sy'n defnyddio Cludiant cyhoeddus e.e. fyddai ffactorau cymdeithasol megis diffyg arian ddim yn cymhwyso rhywun i fedru cael Cludiant Cyhoeddus. Hoffai'r CIC weld Cludiant Cyhoeddus yn rhedeg yn amlach i garfan ehangach o gleifion.

Testun pryder oedd y ganran uchel o gleifion a gadarnhaodd eu bod wedi colli neu wedi bod yn hwyr i apwyntiad gwasanaeth iechyd Sylfaenol (32%), neu apwyntiad gwasanaeth Eilaidd / Trydyddol (41%) o ganlyniad uniongyrchol i broblemau cludiant.

Pan fydd cleifion yn hwyr i apwyntiadau'r GIG neu'n eu colli, mae'r canlyniadau'n ddirfawr. Os bydd claf yn colli apwyntiad yn gyfan gwbl, bydd oedi o ran y diagnosis neu driniaeth a allai arwain at ganlyniadau sy'n bygwth bywyd. Byddai angen rhagor o amser gweinyddu i ail-drefnu'r apwyntiadau a gollwyd, ac yna mae'r angen am apwyntiadau niferus yn creu amserau aros hirach i bawb o ran cael mynediad at wasanaethau neu dderbyn

triniaeth. Gall cleifion eraill sydd ag apwyntiadau wedi'u trefnu brofi oediadau os yw cleifion yn cyrraedd yn hwyr a'r apwyntiad yn rhedeg yn hwy na'r slot a neilltuwyd iddynt. Byddai hefyd ganlyniadau ariannol i ddarparwr y gwasanaeth iechyd.

I nifer yr ymatebwyr, mae'r pellter sydd rhaid ei deithio i wasanaethau iechyd yn eu rhwystro rhag cael mynediad at wasanaethau iechyd neu'n rhan o'r rheswm eu bod yn hwyr i apwyntiadau gwasanaethau iechyd neu'n eu colli'n llwyr. Dangosodd canlyniadau'r arolwg bod ymatebwyr yn hapus i gerdded i wasanaethau gofal iechyd pe baent yn agosach i'w cartref, ond i rai roedd hyn yn anodd iddynt. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd nodi ac ystyried hyn hefyd wrth gynllunio gwasanaethau'r dyfodol. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi cynhyrchu dogfen strategaeth dan yr enw 'Llunio ein Gwasanaethau Clinigol i'r Dyfodol' lle maent yn dangos eu bwriad i ddarparu gwasanaethau iechyd yn nes at gartrefi cleifion lle bo'n briodol.

Gellir gweld y ddogfen trwy'r ddolen isod:

https://shapingourfuturewellbeing.com/wp-content/uploads/2021/02/shaping_our_clinical_services_brochure_v3.pdf

Mater o bryder hefyd oedd sylwadau'r rheiny a nododd bod problemau cludiant yn effeithio ar allu 33% o ymatebwyr i ymweld â rhywun mewn ysbyty. Mae hyn yn bryder arbennig i'r cleifion hynny sydd angen bod mewn ysbyty am gyfnod hir o amser gan y gallai arwain at deimladau o arwahanrwydd ac unigrwydd nad sy'n helpu gwellhad buan y claf. Mae hefyd yn destun pryder os ystyrir bod y claf dan sylw yn fregus mewn unrhyw ffordd neu'n methu eiriol drosto'i hun. Mae methiant ffrindiau ac aelodau'r teulu i ymweld ac eiriol ar ran y cleifion yn bryder.

Yn olaf, dywedodd ymatebwyr yr arolwg wrthym mai'r ddau opsiwn mwyaf poblogaidd iddynt i gael gwybodaeth am

wasanaethau cludiant fyddai'r darparwr cludiant (29%) a'r gwasanaeth iechyd (21%), gyda mwyafrif yr ymatebwyr yn dweud wrthym y byddent yn cael yr wybodaeth am gludiant naill ai ar-lein neu trwy eu llythyr apwyntiad. Barn y CIC yw y dylai'r BIP sicrhau bod yr holl wybodaeth am gludiant yn cael ei gynnwys ar eu gwefan a'i ddiweddarau'n amserol. Hefyd, gallai rhoi dolenni i'r gwahanol ddarparwyr cludiant ar wefan y Bwrdd Iechyd fod yn ddefnyddiol i gleifion. Hoffai'r CIC weld gwybodaeth am gludiant yn cael ei gynnwys ym mhob llythyr apwyntiad hefyd.

O'r ymarfer hwn, mae'r CIC wedi dysgu sut i ffurfio arolygon. Er ein bod yn ddiolchgar am ganiatâd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru i ddefnyddio eu harolwg, bydd y CIC yn llunio a chyhoeddi arolygon a fydd yn cynnwys mwy o flychau ymateb 'testun agored' gan alluogi ymatebwyr i ysgrifennu yn eu geiriau eu hunain a rhoi mwy o fanylion wrth ymateb i gwestiynau. Er bod casglu data ystadegol yn galluogi'r CIC i gymharu'r ffigurau ymateb ar draws pob cwestiwn, y prif ffocws i'r CIC yw'r adborth unigol a gesglir oddi wrth gleifion am eu profiadau, a hynny yn eu geiriau eu hunain.

Diolchiadau

Diolchwn i bawb a gymerodd amser i rannu eu barn a'u profiadau gyda ni am eu gwasanaethau iechyd a gofal, ac am rannu eu syniadau.

Gobeithiwn y bydd yr adborth y mae pobl wedi neilltuo amser i'w rannu yn dylanwadu ar wasanaethau gofal iechyd i sylweddoli a gwerthfawrogi yr hyn maent yn gwneud yn dda – a gweithredu lle bo angen mor fuan â phosibl i wneud gwelliannau.

Adborth

Byddem wrth ein bodd clywed eich barn am y cyhoeddiad hwn ac unrhyw awgrymiadau ar sut y

gallem fod wedi gwella arno, fel y
gallwn eu defnyddio i wella ein
gwaith yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn
Saesneg yn ogystal â'r
Gymraeg.



Manylion Cyswilt



CIC De Morgannwg / South Glamorgan CHC
Canolfan Fusnes Pro Copy (Cefn)/ Pro Copy
Business Centre (Rear)
Parc Tŷ Glas
Llanisien
Caerdydd / Cardiff
CF14 5DU



02920 750112



SouthGlam.chiefficer@waleschc.org.uk



www.southglamorganchc.wales



www.facebook.com/SouthGlamCHC



www.twitter.com/SouthGlamCHC

Os ysgrifennwch atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hy yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg.

Cyngor Iechyd Cymuned De Morgannwg

